Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ

Ffôn 029 2076 1861
Ffacs 029 2076 3163

www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Mawrth 2006
Teitl: Cytundeb Cyllido Newydd ar gyfer AU yng Nghymru

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi cyhoeddi dyraniadau grant o dros £335 miliwn ar gyfer 2006/07. Bydd y 12 sefydliad addysg uwch yn y sector yn derbyn grantiau uwch nag yn 2005/06. Yn nhermau arian parod, y cynnydd cyfartalog ar gyfer SAUau ar grantiau 2005/06 yw 2.84%. Mae'r cynnydd yn amrywio o 2.05% i 3.60% i SAUau unigol.

Mae cylch gwaith y Cyngor yn cynnwys rhoi ymyriadau strategol ar waith i sicrhau bod y sector yn cwrdd â'r nodau cyffredinol a osodir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r Cyngor wedi:

- darparu cymorth ychwanegol sylweddol ar gyfer ehangu mynediad, gyda chynnydd o 52.2% mewn taliadau Premiwm Ehangu Mynediad;

- diogelu cyllid ymchwil rhag effaith enillion effeithlonrwydd sy'n cael eu cymhwyso at gyllid arall er mwyn helpu'r sector i baratoi ar gyfer yr Ymarfer Asesu Ymchwil (YAY) nesaf;

- gwneud darpariaeth i barhau i helpu sefydliadau i gwrdd â chostau'r cyfraniadau ychwanegol y mae'n rhaid i gyflogwyr eu gwneud at Gronfa Pensiwn yr Athrawon, gyda'r arian hwn yn cael ei drosglwyddo i'r craidd yn ystod y tair blynedd nesaf;

- cymhwyso ennill effeithlonrwydd cymedrol o 0.4% at gyllid addysgu er mwyn llyfnhau effaith amrywiadau yn setliad grant Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac er mwyn cyllido datblygiadau yn yr ymyriadau strategol hynny a amlinellwyd uchod;

- parhau i ddangos ei ymrwymiad i weithgareddau ffranseis drwy gadw hyn yn flaenoriaeth yn y model cyllido;

- parhau i roi cymorth sylweddol tuag at ddatblygu ymchwil drwy'r Gronfa Buddsoddi mewn Ymchwil a gyflwynwyd yn 2004/05 i'w defnyddio'n strategol gan y SAUau er mwyn, er enghraifft, datblygu ymchwil newydd, hybu cryfderau ymchwil, neu ail-lunio eu portffolio ymchwil; ac wedi

- cytuno ar gynnydd sylweddol o 24% yn y Gronfa Trydedd Genhadaeth a sefydlwyd ym mis Mehefin 2004 i gefnogi'r gweithgareddau hyn, gyda'r bwriad o ddyblu maint y gronfa dros gyfnod o dair blynedd.

Dyma'r bedwaredd flwyddyn i'r dyraniadau hyn gael eu gwneud o dan y cytundeb y daethpwyd iddo yn sgil cyflwyno *Ymgeisio'n Uwch*, strategaeth 10-mlynedd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer addysg uwch, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. O dan y cytundeb hwn, darperir cyllid uwchben y llinell sylfaen, ar yr amod bod SAUau yn ymrwymo i ddwy flaenoriaeth y strategaeth - ailgyflunio ac ehangu mynediad.

Bydd £14.4 ar gael uwchben y llinell sylfaen yn 2006-07 a chlustnodwyd £2 filiwn o'r swm hwn ar gyfer ehangu mynediad. Neilltuwyd y gweddill, ar hyn o bryd, i hybu ailgyflunio a chydweithio yn y sector ond, ar gais y Gweinidog, gall y Cyngor ddewis defnyddio'r arian hwn at ddibenion strategol ychwanegol eraill.

Meddai'r Athro Phil Gummett, Prif Weithredwr CCAUC:

"Rydw i wrth fy modd bod y Cyngor wedi gallu darparu arian ychwanegol sylweddol i gefnogi ehangu mynediad y flwyddyn nesaf. Rydw i'n hynod falch hefyd ein bod ni wedi cynyddu'r cymorth sydd ar gael ar gyfer creu cyfoeth a gwybodaeth yn ogystal ag ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol drwy ddarparu rhagor o gyllid i hybu ymchwil a gweithgareddau trydedd genhadaeth. Yn ystod y flwyddyn i ddod byddwn yn parhau i geisio ffyrdd o dargedu cyllid yn ddetholus i gefnogi blaenoriaethau strategol."

Meddai'r Athro Roger Williams, Cadeirydd y Cyngor:

"Mae'r Cyngor yn cydnabod ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau ailgyflunio o fewn y sector sy'n sylweddol a chynaliadwy. Mae cyflawni newidiadau o bwys yn y sector addysg uwch yng Nghymru mewn ffordd sy'n mynd y tu hwnt i fuddiannau hanesyddol penodol y sefydliadau yn gofyn am lawer o amser ac ymdrech a chryn weledigaeth ar ran y sector. Rydw i'n falch ein bod ni'n dechrau gweld cynnydd pellach yn y meysydd hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r buddsoddi sylweddol mewn ymchwil ar y cyd. Edrychwn ymlaen at gefnogi cynigion ailgyflunio sy'n dangos gweledigaeth a beiddgarwch yn ystod y flwyddyn i ddod."

Gweler Atodiad A am ddyraniadau grant rheolaidd 2006/07 o'u cymharu â 2005/06. Mae Atodiad B yn cymharu dosbarthiad grant y Cyngor, rheolaidd a chyfalaf, llinell sylfaen ac uwchben y llinell sylfaen, ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07 â'r dosbarthiad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/06. Mae dyraniadau ar gyfer 2005/06 yn cynnwys dyraniadau Premiwm Ehangu Mynediad ychwanegol (gweler Cylchlythyr W06/03HE).

Diwedd

Cysylltiadau i'r cyfryngau

Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebiadau - 029 2068 2225.
Dale Hall, Pennaeth Cynllunio a Llywodraeth Gorfforaethol - 029 2068 2280.

Nodiadau i Olygyddion

1. Gellir gweld manylion llawn dyraniadau grant rheolaidd y Cyngor ar gyfer 2006/07 yng Nghylchlythyr W06/09HE, *Recurrent Grant 2006/07.*

2. Cefndir CCAUC

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 1992 a daeth yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru ar 1 Ebrill 1993.

O dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu'r cyllid a roir gan y Cynulliad i gynnal yr addysg a ddarperir a'r ymchwil a wneir gan sefydliadau addysg uwch a chyrsiau addysg uwch penodedig a ddarperir mewn sefydliadau addysg bellach.

O dan Ddeddf Addysg 1994, mae'r Cyngor yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol ar gyfer athrawon ysgol ac am gomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae'r Cyngor yn cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.

3. Colegau Addysg Bellach

Mae CCAUC yn cyllido peth darpariaeth addysg uwch yn uniongyrchol mewn Colegau Addysg Bellach. Mae'r arian a dderbyniant ar gyfer eu darpariaeth AU yn gyfran fach iawn yn unig o incwm y CABau. ELWa sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r cymorth ariannol ar gyfer y sefydliadau hyn. Am y rheswm hwn, nid yw'r Cyngor erioed wedi ceisio cymedroli'r canlyniad cyllido (drwy ymgodi i CMC (*GDP*)) ar gyfer y sefydliadau hyn yn nhermau eu darpariaeth addysg uwch. Mae hyn yn golygu y gall cyllid blwyddyn-ar-flwyddyn ar gyfer darpariaeth addysg uwch mewn CABau amrywio cryn dipyn gan ddibynnu ar nifer y myfyrwyr a recriwtiant.